Cynefin Consultants

Cylchlythyr
Rhif 2

Cynefin ar y cledrau!

Mae Cynefin yn brysur yn gweithio gyda dau o gwmnïau rheilffordd Gogledd Cymru i'w helpu yn eu gwaith o ehangu'r rhwydwaith reilffyrdd ar draws yr ardal. Yn sgil 10 o flynyddoedd o weithio fel ymgynghorwyr amgylcheddol ar y cynllun i ailosod 22 milltir o Reilffordd Ucheldir Cymru, 'rydym yn ddiweddar wedi cwblhau Asesiad Amgylcheddol o gynnig i ymestyn Rheilffordd Llangollen cyn belled â Chorwen.

Mae Cyd-lynnydd Prosiectau Cynefin, Patrick Bigham, yn eithaf optimistaidd:
"Nid ydym yn rhagweld unrhyw effeithiau amgylcheddol negyddol sylweddol yn deillio o ymestyn Rheilffordd Llangollen a mae'r manteision economaidd posibl i dref Corwen yn sylweddol. Mae ffordd hir i fynd hyd nes y gellid sicrhau hawl gyfreithiol i ail osod y rheilffordd ond, hyd yn hyn, mae pethau'n edrych yn gadarnhaol iawn".

Llwyddiannau cynllunio diweddar

Mae ein gwasanaeth cynllunio wedi bod yn dilyn nifer o achosion ar ran cleiantiaid dros y misoedd diwethaf. Mae achosion nodedig yn cynnwys:

- sicrhau caniatâd cynllunio i ddatblygiad twristiaeth ansawdd uchel i gymryd lle safle carafannau bresennol mewn Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol;
- apêl cynllunio lwyddiannus ar gyfer cwpl lleol a oedd am gosi ty^ newydd i'w hunain mewn ardal sydd dan lawer o gyfyngiadau tirwedd.

Nid yr amgylchedd naturiol yn unig

Mae newidiadau diweddar mewn polisïau lleol a chenedlaethol yn golygu bod cynghorau'n debygol o ofyn am fwy o wybodaeth nag erioed o'r blaen cyn dod i benderfyniad am gynigion datblygu. Eglurodd Cyfarwyddwr Cynllunio Cynefin, Rhys Roberts:
"Mae cyflwyno cais cynllunio'n mynd yn fwy fwy cymhleth gan bod angen adroddiadau fel Datganiadau Dyluniad a Mynediad a, mewn rhai achosion, Datganiadau Cymunedol ac Ieithyddol. Wedi dweud hynny, mae'n rhaid gobeithio y bydd awdurdodau cynllunio, trwy dderbyn rhagor o wybodaeth ymlaen llaw, mewn gwell sefyllfa i asesu'r cynnig yn drylwyr a gellid osgoi'r angen i fynd at apêl. Ein profiad hyd yn hyn yw, er bod peth oedi cychwynnol wedi digwydd, nid yw'r anghenion newydd wedi effeithio ein gallu i sicrhau caniatâd cynllunio".

Ynghylch Cynefin

Rhag ofn nad ydych yn ymwybodol o'r ystod o wasanaethau 'rydym yn eu cynnig mae'r rhain yn cynnwys:

- **Gwasanaethau cynllunio** - cyngor a chymorth gyda cheisiadau cynllunio ac apeliadau;
- **Gwerthusiad amgylcheddol** - asesu effeithiau cynnigion datblygu ar yr amgylchedd;
- **Ymchwil a chyllido** - helpu'ch cynllun i gwrdd a gofynion cyrff ariannu a'r rheini sy'n gwneud penderfyniadau.

Mae croeso i chi alw i'n gweld ar unrhyw adeg. Am ragor o wybodaeth cysylltwch â

Rhys Roberts
1 New York Cottages, Bangor Road, Penmaenmawr, Conwy LL34 6NP
Tel: 01492 622272 ~ email: info@cynefin.co.uk ~ www.cynefin.co.uk